

Gorffennaf 2022

**Dogfen penderfyniad wedi
ymgyngoriad ar y gronfa
arloesi
– dull gweithredu ar gyfer
2022-25**

ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif benderfyniadau ar y dull a gymerir gennym parthed y gronfa arloesi ar gyfer 2022-25. Mae ein penderfyniadau wedi ystyried yr adborth a roddwyd gan randdeiliaid yn ein hymgyngoriad diweddar ac adborth ehangach a dderbyniwyd gennym yn ystod cyfnod peilot y gronfa arloesi.

Rydym wedi cyhoeddi'r prif benderfyniadau yn bennaf er mwyn sicrhau bod y sector dŵr yn glir ynglŷn ag agor ein cystadleuaeth nesaf, Her Torri Drwodd Dŵr 3, a fydd yn cael ei lansio ym mis Hydref 2022, ac felly'n gallu cynllunio ar gyfer hynny.

Disgwylwn gyhoeddi dogfen ategol penderfyniad ymgynghori yn nhymor yr hydref 2022, a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prif benderfyniadau, gan gynnwys mwy o fanylion a phenderfyniadau ar y gystadleuaeth mynediad agored newydd, y mae angen ei datblygu ac ymgynghori ac ymgynghori arni gyda'r sector.



Crynodeb gweithredol

Cawsom 40 o ymatebion i'n hymgyngoriad gan amrywiaeth o ymatebwyr, gan gynnwys cwmnïau dŵr, sefydliadau cadwyn gyflenwi, arloeswyr a chyrrff cynrychioli. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn gadarnhaol am y cynigion a osodwyd. O ganlyniad, rydym wedi gwneud y penderfyniadau canlynol ynglŷn â'r gronfa arloesi yn 2022-25:

Cystadleuaeth mynediad agored – agor yn gynnar yn 2023

Byddwn yn lansio cystadleuaeth mynediad agored newydd i leihau rhwystrau i gael mynediad at y gronfa. Byddwn yn sicrhau bod tua £4 miliwn ar gael bob blwyddyn ac yn gwahodd ceisiadau gwerth hyd at £500k. Gall unrhyw un wneud cais*.

Gweler tudalen 5 am ragor o wybodaeth.

Her Torri Drwedd Dŵr 3 – agor ym mis Hydref 2022

Ffrwd Catalydd

Cynhelir y ffrwd Catalydd yn flynyddol. Bydd tua £8 miliwn ar gael yn 2022-23. Gall ceisiadau unigol gynnig am rhwng £500k a £2 filiwn. Rhaid i ymgeiswyr arweiniol fod yn gwmnïau dŵr a gellir trwyddedu eiddo deallusol (IP) cefndirol.

Gweler tudalen 6 am ragor o wybodaeth.

Ffrwd Trawsnewid

Cynhelir y ffrwd Trawsnewid yn flynyddol. Bydd tua £30 miliwn ar gael yn 2022-23. Gall ceisiadau unigol gynnig am rhwng £2 filiwn a £10 miliwn. Rhaid i ymgeiswyr arweiniol fod yn gwmnïau dŵr a gellir trwyddedu eiddo deallusol (IP) cefndirol.

Gweler tudalen 7 am ragor o wybodaeth.

Byddwn yn parhau i werthuso cynnydd a'n prosesau ar gyfer cystadleuaeth (gan gynnwys sut y gallwn symleiddio gofynion mynediad), a byddwn yn addasu ein dull os yw hynny'n cefnogi canlyniadau gwell.

Gwybodaeth atodol

Dogfen ategol penderfyniad wedi'r ymgynghoriad – yn rhoi dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a rhagor o fanylion am benderfyniadau. Disgwylw'n gyhoeddi'r ddogfen hon yn gynnar yn nhymer yr hydref 2022.

[IYmgynghoriad ar y gronfa arloesi – dull gweithredu ar gyfer 2022-25](#) – y ddogfen ymgynghori a oedd yn weithredol ym misoedd Ebrill a mis Mai 2022.

[Ymgynghoriad ar y gronfa arloesi – dull gweithredu ar gyfer atodiadau 2022-25](#) – yn rhoi rhagor o fanylion am y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer 2022-25.

<https://waterinnovation.challenges.org/> – yn rhoi'r holl wybodaeth am y cystadlaethau rydym wedi'u cynnal hyd yn hyn.

Improving life through water | Gwella bywyd drwy ddŵr | 3



* Yn amodol ar delerau ac amodau

Rydym wedi bod yn gweithredu'r gronfa ers 18 mis fel rhaglen beilot. Yn ystod y cyfnod hwn, gallai unrhyw sefydliad bartneru ag un neu fwy o'r [25 cwmni dŵr¹, gan gynnwys wyth NAV, yng Nghymru a Lloegr](#) a fyddai'n arwain cais i gystadleuaeth.

Rydym wedi cael ein calonogi gan lefel y diddordeb, y cydweithio ac ansawdd ac amrywiaeth y ceisiadau yr ydym wedi'i weld. Mae cwmnïau dŵr wedi ymuno â'r gronfa mewn partneriaeth â 275 o wahanol sefydliadau hyd yn hyn.

Yn yr ymgynghoriad (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022) fe wnaethom nodi nifer o feysydd allweddol lle byddai esblygiad pellach o'r gronfa yn fuddiol dros y tair blynedd nesaf (2022-25). Yr meysydd allweddol oedd:

- cefnogi mwy o syniadau cam cynnar drwy'r gronfa arloesi;
- caniatáu i arloeswyr gael mwy o fynediad at y gronfa;
- annog ystod ehangach o ddatblygiadau arloesol, gan gynnwys o sectorau eraill;
- lleihau rhwystrau i ymwneud â'r gronfa; a
- hwyluso perthnasoedd a chydweithrediadau newydd ar draws y sector ac o sectorau eraill.

Nod y cynigion yn yr ymgynghoriad oedd mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Cawsom 40 o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad gan sbectrwm eang o randdeiliaid, gydag 16 o'r 40 o ymatebwyr yn cynrychioli arloeswyr neu gyrff cadwyn gyflenwi. Mae ymatebwyr eraill yn cynnwys 15 cwmni dŵr (gan gynnwys un NAV) a nifer o gyrff cynrychioliadol megis Future Water Association, Spring, National Energy Action a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Yn yr ymgynghoriad gwnaethom gynnig:

- rhannu'r £120 miliwn sy'n weddill o'r gronfa yn dri dyfarniad blynyddol o tua £40 miliwn rhwng 2022 a 2025;
- cyflwyno **cystadleuaeth newydd** wedi'i thargedu'n bennaf at arloeswyr i gefnogi datblygiad syniadau cam cynharach, gweler Adran 3 ac Atodiad 2 am ragor o fanylion;
- dyrannu cyfran o'r cyllid (tua £4 miliwn) sydd ar gael ar gyfer 2022-25 i'r **gystadleuaeth newydd** hon a chael gwared ar rwystrau i gyfranogiad;
- caniatáu i unrhyw un fod yn brif ymgeisydd mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliad ar gyfer ffrwd Catalydd yr **Her Torri Drwodd Dŵr**;
- caniatáu i berchnogion IPR cefndirol godi ffi'r drwydded ar gyfradd deg, resymol ac anwahaniaethol am geisiadau i ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr **Her Torri Drwodd Dŵr**; a
- chynnal holl elfennau eraill ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr **Her Torri Drwodd Dŵr**.

¹Yn y ddogfen hon, mae cyfeiriad at 'gwmni dŵr' yn golygu ymgymerwr dŵr a/neu garthffosiaeth sydd â phenodiad o dan Bennod 1, Rhan 2 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Rydym wedi cael cefnogaeth aruthrol i gyflwyniad cystadleuaeth ‘mynediad agored’ newydd. Byddwn yn gweithio ar fanylion y gystadleuaeth newydd yn y misoedd nesaf, gallwn gadarnhau'r canlynol ar hyn o bryd:

- bydd y gystadleuaeth yn cael ei lansio dim cynharach na mis Ionawr 2023 gyda phroses gofrestru syml sy'n gymesur â gwerth a risg y mentrau hyn;
- ni fydd gofyniad i sefydliadau bartneru a/neu dderbyn nawdd gan gwmni dŵr i gymryd rhan yn y gystadleuaeth;
- bydd y gystadleuaeth yn targedu arloesi cyfnod cynnar yn bennaf, gan ddyrannu tua £4 miliwn y flwyddyn;
- bydd hyd at £500,000 ar gael ar gyfer cynigion unigol;
- ni fydd gofyniad gorfodol o gyfraniad ariannol gwerth 10%;
- ni fydd unrhyw ofynion trwyddedu hawliau IP yn berthnasol i geisiadau buddugol yn y gystadleuaeth;
- bydd angen i geisiadau i'r gystadleuaeth hon gyd-fynd ag un neu fwy o'r pedair thema arloesi a amlinellir yn y ddogfen hon.

Byddwn yn adolygu llwyddiant y gystadleuaeth hon cyn penderfynu ar fformat ac amlder cystadlaethau mynediad agored yn y dyfodol.

Byddwn yn darparu mwy o fanylion ar sut y bydd y gystadleuaeth newydd yn rhedeg yn gynnar yn rhyngor yr hydref 2022. Disgwyliwn i hyn gynnwys:

- Trosolwg o'r broses gofrestru a'r amseru.
- Amlinelliad o'r meini prawf cymhwysedd, gwybodaeth gyfreithiol hanfodol a throsolwg o feini prawf asesu i helpu pobl i ystyried a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cystadlu.
- Diffiniad cliriach o sut y bydd angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn cyd-fynd â'r themâu arloesi a/neu a fydd y gystadleuaeth gyntaf yn canolbwyntio ar themâu penodol.
- Cadarnhad o'r rôl y bydd rhanddeiliaid cwmnïau dŵr yn ei chwarae i gefnogi cyflwyniad y gystadleuaeth newydd.

Ymatebodd yr ymatebwyr yn gadarnhaol i'n cynigion i gadw llawer o nodweddion presennol y ffrwd Catalydd tra'n gwneud rhai diwygiadau i ddileu rhwystrau i fynediad. Felly, rydym yn cadarnhau ein penderfyniad i:

- sicrhau bod tua £8 miliwn ar gael yn 2022-23, a bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am rhwng £500,000 a £2 filiwn;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr arweiniol fod yn gwmni dŵr. Gall unrhyw sefydliad fod yn bartner. Gall ymgeiswyr arweiniol ddatganoli cyfrifoldebau rheoli prosiect i bartneriaid;
- angen cyfraniad ariannol gorfodol o 10%;
- caniatáu i hawliau IP cefndirol gael eu trwyddedu a mynnu bod yn rhaid i hawliau IP blaendirol gael eu rhannu â chwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr ([gweler pwynt 4.5 telerau ac amodau Torri Drwodd 2](#));
- cynnal yr opsiwn i ymgeiswyr gynnig dull IPR amgen;
- cynnal proses gofrestru ac amserlen debyg i Torri Drwodd 2 ([gweler adran 5.1 llawlyfr ymgeiswyr ffrwd Catalydd Torri Drwodd 2](#)).

Cynhelir ffrwd Catalydd yr Her Torri Drwodd Dŵr yn flynyddol yn nhymhorau'r hydref 2022, 2023 a 2024. Mae'r dull gweithredu blynyddol hwn yn sicrhau digon o amser rhwng cystadlaethau i gefnogi ar gyfer cynllunio arloesi a datblygu partneriaethau yn well.

Ar gyfer Her Torri Drwodd Dŵr 3, bydd cyfnod mynediad ffrwd Catalydd yn agor am 12 hanner dydd ar ddydd Llun 3 Hydref 2022 ac yn cau am 12 canol dydd ar ddydd Iau 8 Rhagfyr 2022.

Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd ffrwd Catalydd yn gweithio pan fydd yr Her yn agor.

Ar gyfer ffrwd Catalydd, gellir rhannu gweithgarwch sy'n ymwneud â rheoli prosiect y cais (gan gynnwys drafftio'r cyflwyniad) ar draws tîm partner y prosiect. Dylai'r cwmni dŵr arweiniol gytuno â phartneriaid ynglŷn â sut y caiff y gweithgareddau hyn eu rhannu ac yn y pen draw mae'n parhau i fod yn atebol am bob agwedd ar gyflwyniad y cais.

Cynlluniwyd ein newidiadau arfaethedig i Transform er mwyn cynnal y dull craidd y mae ymgeiswyr wedi arfer ag ef, tra'n llacio'r amodau hawliau IP yn unol â ffrwd Catalydd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull hwn. Felly, rydym yn cadarnhau ein penderfyniad i:

- sicrhau bod tua £30 miliwn ar gael yn 2022-23, a bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais am rhwng £2 a £10 filiwn; Rydym yn archwilio opsiwn i ganiatáu cynigion ar gyfer dros £10 miliwn. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn gynnar yn nhymor yr hydref 2022;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr arweiniol fod yn gwmni dŵr. Gall unrhyw sefydliad fod yn bartner;
- angen cyfraniad ariannol gorfodol o 10%;
- caniatáu i hawliau IP cefndir gael eu trwyddedu a'i gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i hawliau IP blaendirol gael eu rhannu â chwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr ([gweler pwynt 4.5 telerau ac amodau Torri Drwodd 2](#));
- cynnal yr opsiwn i ymgeiswyr gynnig dull IPR amgen; a
- chynnal proses gofrestru debyg i Torri Drwodd 2 ([gweler adran 5.1 llawlyfr ymgeiswyr ffrwd Trawsnewid Torri Drwodd 2](#)).

Cynhelir ffrwd Trawsnewid yr Her Torri Drwodd Dŵr yn flynyddol yn nhymhorau'r hydref 2022, 2023 a 2024. Mae'r dull gweithredu blynyddol hwn yn sicrhau digon o amser rhwng cystadlaethau i gefnogi ar gyfer cynllunio arloesi a datblygu partneriaethau yn well.

Ar gyfer Her Torri Drwodd Dŵr 3, bydd cyfnod mynediad ffrwd Trawsnewid yn agor am 12 hanner dydd ar ddydd Llun 3 Hydref 2022 ac yn cau am 12 canol dydd ar ddydd Mercher, 9 Tachwedd 2022.

Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd ffrwd Trawsnewid yn gweithio pan fydd yr Her yn agor. Er enghraifft, y canlyniadau cyllido posibl yn Rownd 3, mwy o eglurder ynglŷn â'r cyllid sy'n gysylltiedig â cherrig milltir a chyfleoedd posibl ar gyfer cyllid dilynol.

Ar gyfer y ffrwd Trawsnewid, mae'n bwysig bod cwmnïau dŵr yn chwarae rhan arweiniol ym mhob agwedd ar ddatblygu ceisiadau a chyflawni prosiectau. Mae hyn yn cefnogi uchelgais y gronfa i ymgorffori arferion a gwybodaeth arloesi o fewn cwmnïau dŵr (a'r sector) ar gyfer yr hirdymor.

Rhaid i geisiadau a gyflwynir i'r gronfa arloesi alinio ag un neu fwy o themâu'r gronfa arloesi. Bwriad y themâu hyn yw amlygu meysydd allweddol lle mae angen meddwl arloesol yn y sector dŵr.

Rydym wedi myfyrio ar yr adborth a gawsom yn ystod y cyfnod peilot ac wedi diwygio ein themâu i gyd-fynd yn agosach â [strategaeth arloesi dŵr 2050](#), [blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru](#) a [datganiad Polisi Strategol](#) diweddaraf Llywodraeth y DU. Rydym yn cadarnhau defnyddio'r pedair thema cronfa arloesi canlynol ar gyfer 2022-25:



1.

Ymateb ac addasu i newid yn yr hinsawdd gan gynnwys cyflawni uchelgeisiau'r sector o garbon sero net, dim gwastraff a dim gollyngiadau



2.

Diogelu a gwella'r amgylchedd a systemau naturiol, i amddiffyn cwsmeriaid presennol a'r dyfodol rhag effeithiau tywydd eithafol a llygredd



3.

Sicrhau gwytnwch gweithredol hirdymor a deall risgiau seilwaith i gwsmeriaid a'r amgylchedd, dod o hyd i atebion i liniaru'r rhain mewn ffyrdd cynaliadwy ac effeithlon



4.

Profi ffyrdd newydd o gynnal gweithgareddau craidd i ddarparu'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid a chymdeithas eu hangen, yn eu disgwyl a'u gwerthfawrogi nawr ac yn y dyfodol

Er na chyfeirir yn benodol atynt bellach yn y themâu, mae gweithgareddau galluogi yn dal yn bwysig iawn i ysgogi arloesi yn y sector ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu'r gronfa i gyflawni ei chanlyniadau. Rydym yn gwahodd ceisiadau yn y maes pwysig hwn gan y byddant yn cefnogi uchelgais y gronfa i ymgorffori arferion arloesi a gwybodaeth o fewn cwmnïau dŵr (a'r sector) ar gyfer yr hirdymor.

Nid ydym bellach chwaith yn cyfeirio'n benodol **ddata agored** neu **fregusrwydd** yn y themâu – fodd bynnag byddai'r ddau yn ymhlyg yn thema 4 (ac eraill), a byddai'r ddau yn hawdd yn fodd o gyflawni'r thema hon. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiadau polisi manylach ar safbwynt Ofwat ynglŷn â [Data Agored](#) a [bregusrwydd cwsmeriaid](#) ers dechrau'r cystadlaethau. Credwn fod ehangder y thema ehangach yn caniatáu mwy o ryddid wrth gynnig ffyrdd gwell o weithio ac y gallai rhoi mwy o fanteision.

Nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu datblygu heriau mwy penodol, **wedi'u targedu** ar gyfer cystadlaethau yn y dyfodol. Cawsom adborth yn awgrymu y gallai hyn lesteirio arloesi arall drwy ganolbwyntio adnoddau arloesi cyfyngedig ar un mater. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hyblygrwydd i wneud hyn os oes angen clir amdano, a byddem yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu heriau o'r fath. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gallem gymell mathau o fynediad a meysydd thematig sydd wedi'u tangynrychioli.

Dros y misoedd nesaf byddwn yn gweithio gyda'r sector dŵr ac arloeswyr eraill i edrych ar sut y gall y gronfa barhau i ysgogi arloesi yn y cyfnod adolygu prisiau nesaf (2025-2030).

Bydd hyn yn cynnwys:

- Maint y gronfa
- Sut y gallai weithredu
- A ellid ei chyflwyno mewn partneriaeth â chronfeydd arloesi eraill a sectorau eraill

Yn yr ymgynghoriad gofynnwyd a ddylai'r gronfa arloesi barhau y tu hwnt i'r cyfnod adolygu prisiau presennol.

Roedd mwyafrif yr ymatebion o blaid parhau â'r gronfa y tu hwnt i 2025 gan y byddai hyn yn:


- creu sicrwydd i fuddsoddi ymhellach mewn arloesi;
- helpu i feithrin partneriaethau hirdymor;
- parhau i greu llif o syniadau newydd;
- ysgogi lefelau uwch o arloesi; a
- helpu'r sector i ymateb i'r heriau strategol y mae'n eu hwynebu, megis cyrraedd sero net erbyn 2030.

Roedd methodoleg ddrafft PR24 [<link>](#), a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2022, yn nodi y byddai'r gronfa arloesi yn parhau i'r cyfnod adolygu prisiau nesaf, a fyddai'n ymestyn ei hoes hyd at fis Mawrth 2030.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn bwriadu dyfarnu tua £120 miliwn i fentrau arloesol. Mae'r amserlen isod yn nodi sut yr ydym yn disgwyl strwythuro ein darpariaeth cystadleuaeth.

Byddwn yn cynnal tair rownd o'r Her Torri Drwodd Dŵr hyd at fis Mawrth 2025. Disgwylwn i'r Her Torri Drwodd Dŵr yn 2022-23 redeg ar amserlen debyg i Her Torri Drwodd Dŵr 2, gan lansio ar 3 Hydref a dod i ben erbyn mis Ebrill y flwyddyn ganlynol. Ar gyfer 2023-24 a 2024-25 byddwn yn anelu at lansio'r gystadleuaeth ym mis Medi bob blwyddyn a gorffen erbyn mis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Ni fydd y gystadleuaeth mynediad agored gyntaf yn agor cyn Ionawr 2023. Byddwn yn adolygu llwyddiant y gystadleuaeth gychwynnol hon cyn penderfynu ar amllder cystadlaethau mynediad agored yn y dyfodol.

Byddwn yn ystyried addasu paramedrau dylunio cystadleuaeth, gan gynnwys amserlennu cystadleuaeth, os bydd hyn yn gwella canlyniadau'r gronfa. Gall hyn gynnwys cyflwyno cystadlaethau wedi'u targedu, seiliedig ar herio yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi digon o rybudd i randdeiliaid. Byddwn hefyd yn cadw mewn cof adolygiad prisiau 2024 a'r effaith y bydd yn ei gael ar y sector wrth i ni gynllunio cystadlaethau yn y dyfodol.



Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i mailbox@ofwat.gov.uk.

OGI